



**Cofnodion y CBC wedi'u cadarnhau  
Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid (PPF)  
12 Awst 2025 am 13:30 o'r gloch  
Wyneb a wyneb ac ar Microsoft Teams**

**Aelodau:**

Paul Worthington	(PW)	Cadeirydd y PPF ac Aelod Lleyg, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC)
Nia Roberts	(NR)	Aelod Lleyg, CBCGC
Ian Green	(IG)	Is-gadeirydd ac Aelod Lleyg, CBCGC (Microsoft Teams)
Abigail Harris	(AH)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

**Hefyd yn Bresennol:**

George Galletly	(GG)	Cyfarwyddwr Dros Dro Cynllunio a Strategaeth Gorfforaethol, CBCGC
Huw George	(HG)	Prif Gomisiynydd Dros Dro, CBCGC
Stacey Taylor	(ST)	Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth/Dirprwy Brif Gomisiynydd, CBCGC
Ross Whitehead	(RW)	Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111, CBCGC
Gwen Kohler	(GK)	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Gwerth, CBCGC
Matthew Edwards	(ME)	Ysgrifennydd Cynorthwyol Dros Dro'r Pwyllgor, CBCGC

**Ymddiheuriadau:**

Hayley Thomas	(HT)	Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Helen Tyler	(HTy)	Pennaeth Llywodraethu a Risg, CBCGC

**Cofnodion:**

Gareth Mitchell	(GM)	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol, CBCGC
-----------------	------	---

Dechreuodd y cyfarfod am 13:30 o'r gloch.

Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
PPF25/045	<b>1.1 Croeso a Chyflwyniadau</b> Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams ac yn bersonol yn Ystafell Gyfarfod Fawr Charnwood. Nodwyd bod cworwm wedi'i gyflawni. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cyfarfod gael ei recordio at ddibenion gweinyddol. Cafwyd cyflwyniadau.
PPF25/046	<b>1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb Nodwyd</b> yr ymddiheuriadau fel yr uchod.
PPF25/047	<b>1.3 Datganiadau o Fuddiant</b>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ychwanegol ar wahân i'r rhai a oedd eisoes wedi'u cofrestru.
PPF25/048	<b>1.4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2025</b> <b>Cymeradwywyd</b> cofnodion cyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid a gynhaliwyd ar 10 Mehefin 2025 fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.
PPF25/049	<b>1.5 Cofnod Gweithredu</b> <b>Nododd</b> yr aelodau y cynnydd a wnaed ar y camau gweithredu a amlinellwyd yn y log gweithredu a <b>chytunwyd</b> fod y camau gweithredu a nodir fel rhai 'wedi'u cau' wedi'u cwblhau.  Nododd yr aelodau: <ul style="list-style-type: none"><li>• 25/003 – pwysigrwydd sicrhau dilyniant priodol cyfarfodydd, byddai hyn yn cael ei weithredu ymhellach pan fyddai Ysgrifennydd newydd y Pwyllgor yn ei swydd.</li><li>• 25/007 – roedd angen gwneud gwaith sylweddol ar yr adroddiad.</li></ul>
PPF25/050	<b>2.1 Cofrestr Risg CBCGC – Risgiau a Neilltuwyd i Is-bwyllgor PPF</b> Derbyniwyd Cofrestr Risg CBCGC. Nododd yr aelodau: <ul style="list-style-type: none"><li>• Y gofrestr risg dyddiedig 30 Mehefin 2025 (risgiau sy'n sgorio 15 ac uwch)</li><li>• Byddai'r fersiwn nesaf o'r gofrestr risg yn adlewyrchu risgiau CBCGC ar 31 Gorffennaf 2025, byddai hyn yn cael ei dderbyn yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor Comisiynu (JC) ym mis Medi.</li><li>• Roedd y gofrestr risg yn un dros dro, ac roedd gwaith pellach wedi'i drefnu i ddatblygu'r dull rheoli risg a'r awydd i risg. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu fel blaenoriaeth unwaith y byddai Ysgrifennydd newydd y Pwyllgor yn ei swydd, ddiwedd mis Medi.</li><li>• Roedd 18 risg gyda 7 o'r rhain wedi'u neilltuo i Is-bwyllgor PPF (neilltuwyd yr 11 sy'n weddill i Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau [QSO])</li><li>• O'r 7 risg, roedd 5 yn risgiau comisiynu o bob rhan o'r portffolio comisiynu a 2 yn risg gorfforaethol.</li></ul> Trafododd yr aelodau: <ul style="list-style-type: none"><li>• Risg 82 – cadarnhawyd bod risg niwro-adsefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe wedi'i neilltuo i'r Is-bwyllgor QSO</li><li>• Risg 28 – mewn perthynas â'r risg parhad busnes, nodwyd bod cynnydd da wedi'i wneud o ran y recriwtio sy'n ofynnol fel rhan o'r broses newid sefydliadol, fodd bynnag oherwydd y broses recriwtio a'r cyfnodau rhybudd hir nid oedd y risg wedi'i dad-ddwysáu ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cael ei adolygu</li><li>• Swm y gwaith a oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â risg ond nad oedd hyn yn arwain at leihau risgiau. Nododd yr aelodau'r</li></ul>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>gwaith a fyddai'n cael ei wneud ar risg yn y misoedd nesaf fel yr adroddwyd, gan gynnwys gwaith ar gamau gweithredu a rheolaethau.</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Risg 85 - yn ymwneud â Chapasiti CAR-T a'r angen i ystyried a ddylid neilltuo hyn i'r Is-bwyllgor QSO.</li></ul> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Nodi'r</b> adroddiad; a</li><li>• <b>Ystyried a chraffu</b> ar y risgiau a neilltuwyd; a</li><li>• Rhoi <b>sicrwydd</b> ymlaen i'r CBC ynghylch rheoli'r risgiau'n effeithiol.</li></ul>
PPF25/051	<p><b>Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC</b></p> <p>Cyflwynwyd Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Trafodaethau a gynhaliwyd yng nghyfarfod y CBC ym mis Gorffennaf 2025 i ddatblygu'r adroddiad hwn. Rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r gwaith hwn ac amserlen ar gyfer datblygu'r adroddiad. Nododd yr aelodau y byddai adroddiad mwy datblygedig ar gael tua diwedd y flwyddyn ariannol.</li><li>• Y gwaith sydd ei angen i sicrhau bod adroddiadau'n cael eu derbyn gan Is-bwyllgorau ar gyfer monitro a chraffu, gan ganiatáu i sicrwydd gael ei roi i'r CBC</li><li>• Nad oedd rhai o'r dolenni ar dudalennau 78 a 79 yn gweithio.</li></ul> <p>Trafododd yr aelodau yr angen i sicrhau nad oedd gwaith datblygu yn cael ei ruthro a bod perfformiad ac adrodd yn cael eu rheoli'n effeithiol. Trafododd yr aelodau hefyd y bwriad i gyflwyno drafft o adroddiad wedi'i ddiweddarau ac integredig yn barod tua diwedd blwyddyn ariannol 2025-26 gyda'r nod o'i weithredu ar ddechrau blwyddyn ariannol 2026-27.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Trafod</b> y wybodaeth perfformiad ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd gan y CBCGC sydd wedi'i chynnwys yn yr atodiad; a</li><li>• <b>Nodi'r</b> gwaith parhaus i alinio dangosyddion a metrigau i greu adroddiad perfformiad integredig ar gyfer CBCGC.</li></ul>
PPF25/052	<p><b>2.3 Diweddariad Cam 1 Fframwaith Perfformiad Ambiwlansys Brys.</b></p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad a'r diweddariad a ddarparwyd gan Ross Whitehead. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Roedd y perfformiad hwnnw mewn perthynas â'r categorïau newydd o fewn y fframwaith perfformiad (porffor a coch) i fod i gael ei gyhoeddi ar 21 Awst 2025. Roedd arwyddion rheoli wedi awgrymu bod y categori porffor yn unol â'r perfformiad a fodelwyd; adroddwyd bod y categori coch yn amrywio ychydig ond bod hyn yn cael ei weithio drwyddo.</li></ul>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ar 17 Gorffennaf 2025 y byddai newidiadau pellach yn cael eu gwneud i fframwaith perfformiad y gwasanaeth ambiwlans gyda chyflwyno 3 chategori newydd: 'oren: sensitif i amser', 'melyn: asesu ac ymateb', a 'gwyrdd: ymateb wedi'i gynllunio'. Roedd gwaith yn parhau ar y diffiniad manwl a'r prosesau cyflawni gweithredol sy'n ofynnol i gyflawni'r ail gam hwn. Byddai gwaith ar ddiffiniadau manwl wedi'i gwblhau erbyn 18 Awst 2025, gyda'r uchelgais i roi'r newidiadau hyn ar waith erbyn diwedd mis Rhagfyr 2025.</li><li>Gan fod Cam 1 a Cham 2 y newidiadau hyn ill dau wedi'u hanelu at symud ffocws perfformiad o ymateb yn seiliedig ar amser i ganlyniadau clinigol i gleifion, byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r CBCGC ystyried ei ddull o reoli perfformiad a chomisiynu goruchwylio gwasanaethau ambiwlans brys.</li></ul> <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod am y newidiadau a'r newid mewn ffocws o ymateb yn seiliedig ar amser i ganlyniadau clinigol</li><li>Bod CBCGC, Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST) a Llywodraeth Cymru (LIC) yn cydweithio i ddatblygu a chytuno ar y diffiniadau mewn modd tryloyw gyda'r nod o gyfleu'r newidiadau i'r model i'r cyhoedd.</li><li>Yr asesiad allanol tair blynedd o'r newidiadau a fyddai'n cael eu comisiynu gan WAST ac sydd ar hyn o bryd yn y cyfnod caffael</li><li>Bod nifer o safleoedd ysbytai ledled Cymru wedi gwneud newidiadau ystyrllon a chynaliadwy i'w sefyllfa trosglwyddo ambiwlansys, gan arwain at welliant mewn perfformiad.</li></ul> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li><b>Nodi</b> gynnwys y papur.</li></ul>
PPF25/053	<p><b>2.4 Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 3 2025-26</b></p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad hwn. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>Derbyniwyd yr adroddiad yng nghyfarfod y CBC ym mis Gorffennaf 2025.</li><li>Bod sefyllfa ariannol Mis 4 ar gael ar ffurf drafft ac yn unol â sefyllfa ariannol Mis 3</li><li>Byddai'r cynllun ariannol yn cael ei drafod yng nghyfarfod ffurfiol y Tîm Arweinyddiaeth Uwch ar 13 Awst 2025 ac yng Ngweithdy Strategaeth y CBC ar 19 Awst 2025.</li></ul> <p>Trafododd yr aelodau'r angen am eglurder ynghylch y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer gweithgaredd trawsffiniol ac y byddai'n fuddiol deall barn y Llywodraeth ar hyn. Cadarnhawyd bod sgysiauo eisoes wedi'u cynnal ac y byddai hyn yn cael ei drafod yng Ngweithdy Strategaeth y CBC ym</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>mis Awst 2025. Nodwyd yr effaith ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Nodi'r</b> sefyllfa ariannol diwedd mis.</li></ul>
PPF25/054	<p><b>2.5 Cyflwyniad Rhannu Risg</b></p> <p>Rhodddwyd y cyflwyniad. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Yr ymrwymiad i adolygu'r gyfran risg fel rhan o Gynllun Sylfaen CBCGC (2025-26), gan nodi bod y trefniant presennol yn hanesyddol ac yn hynod gymhleth (gyda dros 200 o fformiwlâu)</li><li>• Pwrpas y gyfran risg oedd pennu lefel yr incwm i'w gyfrannu gan bob Bwrdd Iechyd (BI) a phennu unrhyw amrywiant diwedd blwyddyn i'w briodoli.</li><li>• Effaith ariannol sylweddol unrhyw newidiadau i'r dosraniadau/dulliau dyrannu</li><li>• Nid oedd y fformiwlâu presennol yn cydnabod elfennau o ddemograffeg poblogaeth fwy penodol ac roedd hyn yn rhoi cyfle i ddatblygu dyraniad adnoddau yn fanylach er mwyn caniatáu gwell dealltwriaeth o angen yn erbyn gweithgaredd gwirioneddol.</li><li>• Yr ymrwymiad i adolygu'r gyfran risg (uchod) a bod trafodaethau wedi digwydd yn bennaf drwy'r Gweithgor Cyllid</li><li>• Roedd y cyflwyniad wedi'i gyflwyno er mwyn i'r aelodau allu deall cymhlethdod y broses bresennol, effaith un newid ar bob Bwrdd Iechyd a'r nod o'i symleiddio.</li><li>• Y cynnig a wnaed gan Gwen Kohler i gyfarfod ag aelodau yn unigol i drafod y dull presennol</li><li>• Y camau nesaf arfaethedig, gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Gwaith yn cael ei wneud i ddiweddarau'r gofynion data yr oedd y cyfranddaliadau'n seiliedig arnynt, byddai hyn yn gofyn am wybodaeth gan Fyrddau Iechyd y darparwyr.</li><li>○ Trafod canlyniadau'r adolygiad drwy amrywiol fforymau i gytuno ar yr egwyddorion sy'n ymwneud â'r newidiadau, cynigion ar gyfer rhannu cyfrannau risg wedi'u diweddarau, camau gweithredu sydd eu hangen i weithredu newidiadau i'r fformiwlâ a sut y gallai cymhwyso cyfrannau risg adlewyrchu gwelliannau mewn gwerth ac effeithlonrwydd (tra'n dal i ddarparu lefel o ddiogelwch ariannol).</li></ul></li></ul> <p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Nad oedd natur gymhleth y broses bresennol yn addas at y diben a bod angen gwaith sylweddol i sicrhau model soffistigedig ond symlach</li><li>• Mai amcan y CBCGC oedd llunio set o egwyddorion craidd a fyddai'n llywio datblygiad model newydd</li></ul>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<ul style="list-style-type: none"><li>• Y cyfle i brofi bod y CBCGC yn sefydliad enghreifftiol o ran comisiynu drwy ymgymryd â'r gwaith hwn a dylai hyn fod yn elfen allweddol o'r strategaeth gomisiynu.</li><li>• Yr angen i sicrhau cyfranogiad cydweithwyr y Bwrdd Iechyd, yn enwedig Cyfarwyddwyr Cyllid.</li><li>• Y camau nesaf gan gynnwys:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Trafodaeth ynghylch yr egwyddorion craidd yng nghyfarfod y Grŵp Gwaith Cyllid ym mis Awst 2025</li><li>○ Yr angen i ystyried defnyddio Gweithdy Strategaeth CBC yn y dyfodol i drafod gyda Phrif Weithredwyr ac i lywio'r egwyddorion craidd</li><li>○ Yr angen i gadw Cyfarwyddwyr Cyllid a'r Llywodraeth yn ymwybodol o'r gwaith</li><li>○ Yr angen i Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd roi cymeradwyaeth derfynol fel rhan o'u cyfrifoldebau dirprwyedig.</li></ul></li></ul> <p><b>Cam gweithredu:</b> ST/GK i symud ymlaen yn y Grŵp Gwaith Cyllid ym mis Awst a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn cyfarfod Is-bwyllgor PPF yn y dyfodol.</p> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Nodi'r</b> cyflwyniad a ddarparwyd</li><li>• <b>Nodi'r</b> camau gweithredu a gytunwyd a'r ffordd ymlaen.</li></ul>
PPF25/055	<p><b>2.6 Datblygu Cynllun Tymor Canolig Integredig CBCGC (IMTP) 2026-2029</b></p> <p>Derbyniwyd yr adroddiad hwn. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o gyflwyniad 'boddhaol' mewn perthynas â Chynllun Sylfaen CBCGC 2025-26</li><li>• Gofyniad y CBCGC i ddatblygu IMTP 3 blynedd</li><li>• Fframwaith Cynllunio GIG Cymru disgwylid i'w gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn yr wythnosau nesaf.</li><li>• Y dull arfaethedig ar gyfer IMPT 2026-29 CBCGC gyda'r dybiaeth o waelodlin o ailgomisiynu gwasanaethau presennol ac wedi'i lywio gan:<ul style="list-style-type: none"><li>○ Sganio'r Gorwel meddyginiaethau a thechnolegau newydd i wella iechyd a gwerth y boblogaeth</li><li>○ Comisiynu gwybodaeth o feincnodi, tueddiadau a galw</li><li>○ Aseiad o risg o fewn gwasanaethau comisiynedig presennol</li><li>○ Adnabod effeithlonrwydd</li><li>○ Gwahoddiadau gan ddarparwyr ar feysydd newydd posibl o fewn cylch gwaith y CBCGC lle byddai meini prawf comisiynu llym yn cael eu cymhwyso i asesu yn erbyn</li><li>○ Yr amserlen ar gyfer datblygu'r cynllun i sicrhau y byddai cynllun drafft terfynol yn cael ei gyflwyno i CBC ym mis Ionawr 2026 cyn ei gyflwyno erbyn 31 Mawrth 2026.</li></ul></li></ul>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
	<p>Trafododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Amseriad etholiadau'r Llywodraeth yng ngwanwyn 2026 a'u heffaith bosibl</li><li>• Bydd ystyriaeth o'r IMTP yn y dyfodol yn cael ei chwblhau yn ystod purdah ac yna o bosibl yn cael ei gymeradwyo gan LIC newydd. Oherwydd newid posibl yn y dirwedd wleidyddol o amgylch yr IMTP, bydd angen strategaeth gyfathrebu gyhoeddus glir ar gyfer os, a phryd, y bydd angen gwneud penderfyniadau anodd.</li><li>• Y gofyniad i ddatblygu IMTP CBCGC mewn digon o amser i lywio Cynlluniau IMTP terfynol y BI.</li><li>• Y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei dderbyn yng nghyfarfod Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol y Prif Gomisiynydd ym mis Awst</li><li>• Bod y Byrddau Iechyd wedi derbyn adborth ar eu Cynlluniau IMTPs priodol nad oedd CBCGC wedi'i adlewyrchu'n drylwyr yn eu cynlluniau ac y byddai gofyniad i CBCGC weithio gyda'r Byrddau Iechyd yn yr hydref i sicrhau bod hyn yn digwydd.</li></ul> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Nodi, trafod</b> ac, yn ôl yr angen, <b>cytuno</b> ar yr amserlen a'r dull ar gyfer datblygu IMTP CBCGC 2026-29.</li></ul>
PPF25/056	<p><b>3.1 Datblygu Strategaeth CBCGC</b></p> <p>Derbyniwyd y diweddariad llafar. Nododd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Bod datblygiad Strategaeth CBCGC yn parhau</li><li>• Bod cyfarfodydd wedi'u cynnal gyda Phrif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cynllunio a byddai'r trafodaethau hyn yn llywio datblygiad Strategaeth CBCGC a'r IMTP 2026-29</li><li>• Byddai recriwtio pellach o fewn y CBCGC yn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu'n gyflymach.</li></ul> <p>Penderfynodd yr aelodau:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• <b>Nodi'r</b> diweddariad a ddarparwyd.</li></ul>
PPF25/057	<p><b>4.1 Cynllun Busnes Ymlaen Llaw</b></p> <p>Cyflwynodd ME y Cynllun Busnes Ymlaenllaw er gwybodaeth.</p>
PPF25/058	<p><b>5.1 Unrhyw Fusnes Arall</b></p> <p>Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.</p>
PPF25/059	<p><b>5.2 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygu unrhyw gamau gweithredu i gyfarfodydd yn y dyfodol</b></p> <p>Nid oedd unrhyw eitemau i'w gohirio na'u huwchgyfeirio ar yr achlysur hwn.</p>



Cyfeirnod yr Eitem	Eitem Agenda
PPF25/060	<b>5.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b> Daeth y cyfarfod i ben am 15:30. Roedd y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 7 Hydref 2025 yn amodol ar adolygiad o ddilyniant y cyfarfodydd gyda chyfarfodydd y CBC (a aildrefnwyd wedi hynny i 23 Hydref 2025).

COFNODION